# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Sona Care**

**27 Hilton Avenue**
**Aberdaugleddau**
**SA73 2PB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

27/6/2022

***Llywodraeth Cymru*** © Hawlfraint y Goron 2022.
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Sona Care

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr cofrestredig | Sona Care Services |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

### Crynodeb

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau Cymorth Cartref Sona Care yn ymdrechu i gefnogi'r bobl i gadw eu hannibyniaeth. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn sylwgar ac am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn canolbwyntio ar anghenion pob person, er mwyn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr yn y rhan fwyaf o agweddau. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg ar draws y gwasanaeth, fodd bynnag, mae angen gwelliant i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Yn yr arolygiad hwn, nodwyd achosion o dorri rheoliadau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithio gydag AGC i fynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau y gellir cyflawni nodau llesiant ac iechyd y bobl yn llawn.

## Llesiant

Mae’r bobl yn fodlon â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Dywed y bobl bod y gweithwyr gofal yn eu cefnogi'n dda iawn a'u bod bob amser yn barchus ac yn broffesiynol yn eu dulliau. Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion cymorth pob person ac mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob person. Fodd bynnag, mae angen i gynlluniau gofal gael eu datblygu ymhellach er mwyn iddynt fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn glir. Mae hwn yn faes i'w wella a byddwn yn mynd ar ei drywydd yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae angen gwneud rhagor o waith ar gynlluniau gofal a chymorth personol er mwyn llywio’r broses o ddarparu gofal a hyrwyddo llesiant y bobl yn well. Yn ystod yr arolygiad hwn, ni allem ddod o hyd i dystiolaeth bod y bobl yn cael eu cynnwys yn eu hasesiadau a'u cynlluniau personol/cynlluniau gofal. Mae hwn yn faes i'w wella a byddwn yn mynd ar ei drywydd yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel gyda'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi yn eu cartrefi bob dydd, yn enwedig pan eu bod yn gyfarwydd â’r gweithwyr gofal. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i bob person bod eu hanghenion a'u dewisiadau personol yn cael eu deall, mae hyn yn grymuso'r bobl, ac maent yn cael eu galluogi i wneud dewisiadau. Mae preifatrwydd, urddas a gwybodaeth bersonol pob person bob amser yn cael eu hamddiffyn.

Yn gyffredinol, mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Fodd bynnag, nid yw'r polisi a’r weithdrefn diogelu yn unol â’r ddeddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Nid oes unrhyw gyfeiriad at weithdrefn/ap diogelu Cymru Gyfan a rhifau ffôn cyswllt y cyrff perthnasol. Mae’r staff gofal yn adnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw’r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r drefn chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, nid yw'r broses recriwtio yn gyson gadarn. Mae hwn yn fater difrifol, a chyhoeddwyd maes i’w wella.

Nid yw'r darparwr yn cynnig y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg: mae hyn yn golygu bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i’r bobl orfod gofyn amdano. Mae rhai aelodau o staff yn siarad Cymraeg.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau gofal ar waith ar gyfer sut mae'r gweithwyr gofal yn darparu cymorth i'r bobl, er mwyn cyflawni eu canlyniadau gorau posibl. Mae'r rhain yn gyfredol ond ddim mor glir ag y gallent fod, maent wedi'u hysgrifennu â llaw sy'n ei gwneud hi'n anodd darllen rhai ohonynt. Mae angen gwella cynlluniau gofal yr unigolion er mwyn iddynt ganolbwyntio mwy ar y person, a chynnwys y person, ei deulu/cynrychiolydd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym *"Nad oeddent yn siŵr pryd mae cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu, gan eu bod yn beth diweddar sydd wedi'i roi ar waith"*. Ni welsom unrhyw gofnodion o gyfranogiad y bobl wrth ddatblygu neu adolygu eu cynlluniau gofal yn ystod yr arolygiad. Trafodwyd hyn â'r unigolyn cyfrifol /rheolwr a wnaeth ein sicrhau y byddai hyn yn cael ei weithredu. Mae hwn yn faes i'w wella a fydd yn cael ei wirio yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r staff yn mynychu cyfarfodydd tîm lle mae anghenion y bobl yn cael eu trafod a'u diweddaru, ac roedd cofnodion y cyfarfodydd ar gael i ni yn ystod yr arolygiad. Roedd y rhain yn dangos bod camau gweithredu'n cael eu holrhain a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r staff.

Mae'r bobl yn hapus â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r darparwr yn gofyn i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolydd gwblhau holiaduron yn rheolaidd, ac mae'r adborth yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn ac yn ganmoliaethus. Roedd y bobl yn dweud bod *"y staff yn dda iawn a dydyn nhw ddim yn rhuthro"* a *"dwi'n hapus iawn".*

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ledled y gwasanaeth. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag heintiau cyn belled ag y bo modd: mae pob gweithiwr gofal yn defnyddio cyfarpar diogelu personol a chaiff y staff gofal eu profi'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r holl staff gofal yn ymwybodol o'r polisïau sydd ar gael iddynt ac nid ydynt yn gallu cael mynediad atynt. Mae hwn yn faes i'w wella a byddwn yn mynd ar ei drywydd yn ystod yr arolygiad nesaf.

Cyn belled ag y bo modd, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i amddiffyn y bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r risgiau i iechyd a llesiant y bobl yn cael eu nodi'n glir a'u lleihau er mwyn i'r bobl allu bod mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn dweud y byddant yn mynd at y rheolwr yn y lle cyntaf ond y byddant yn hyderus i fynd at asiantaethau allanol, megis y tîm diogelu, pe byddant yn meddwl bod angen gwneud hynny. Nid yw'r polisi diogelu yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, megis manylion gweithdrefn Diogelu Cymru Gyfan a'r ap ac nid oes ynddo gofnod yn nodi pryd y cafodd ei adolygu ddiwethaf. Mae hwn yn faes i'w wella a byddwn yn mynd ar ei drywydd yn ystod yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu diwylliant sy'n sicrhau y caiff canlyniadau gorau posibl eu cyflawni ar gyfer y bobl. Nid oes systemau ar waith sydd wedi'u cynllunio i fonitro llesiant y bobl a safon y cymorth mae pob person yn ei dderbyn. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu nodi'r holl gamau gweithredu sydd eu hangen i wella llesiant y bobl gan na chwblhawyd unrhyw adroddiadau ansawdd gofal bob chwe mis. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn dangos tystiolaeth o gyfarfod â'r bobl a'u perthnasau nac aelodau o'r tîm staff i wirio ansawdd cyffredinol y cymorth a gynigir. Rydym wedi cyhoeddi maes i'w wella; rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i weithredu ar hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Nid oes gan y darparwr wiriadau cyn cyflogi cadarn ar waith - mae'r rhain yn cynnwys gwiriadau geirdaon, gwiriadau lluniau adnabod a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nid yw'r ffeiliau staff a gedwir yn y swyddfa yn cynnwys y gwiriadau cyn cyflogi, yr unig wiriad yr oeddem yn gallu ei weld oedd gwiriadau unigol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gedwir ar y cyfrifiadur. Trafodwyd hyn â'r darparwr sydd wedi sicrhau y bydd yn cymryd camau gweithredu. Rydym wedi cyhoeddi maes i'w wella; rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i weithredu ar hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, ond ni chanfuom unrhyw gofnod yn dangos bod y rhain yn cael eu hadolygu. Roedd angen adolygu a diweddaru'r polisïau y gwnaethom eu gwirio yn ystod yr arolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Nid yw'r rhain ychwaith yn hygyrch i'r holl staff eu defnyddio, ac nid oes system ar waith i fonitro gwybodaeth a dealltwriaeth staff o'r polisïau. Rydym wedi cyhoeddi maes i'w wella; rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i weithredu ar hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfiad yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 80 | Nid yw'r darparwr wedi cwblhau'r adroddiadau ansawdd gofal gofynnol. Felly, ni allem fod yn sicr o'r | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | dystiolaeth a roddir bod y darparwr yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ganlyniadau unrhyw archwiliad neu gyflawnder cofnodion, nid oes dadansoddiad o’r data neu atgyfeiriadau diogelu, hyfforddiant staff, asesiad o’r gofal a’r cymorth cyffredinol y mae'r bobl yn eu cael gan y gwasanaeth, gwybodaeth a ddarparwyd i gefnogi cyfranogiad y bobl mewn asesiadau ac adolygiadau. Ni all y bobl fod yn hyderus bod systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i gyflawni eu canlyniadau llesiant yn llawn. Heb adolygiad manwl o'r gwasanaeth, ni all yr unigolyn cyfrifol wneud argymhellion a chymryd camau gweithredu ystyrlon i helpu i wella'r gwasanaeth wrth symud ymlaen. | |
| 73 | - Methu â chwblhau ymweliadau rheoliad 73 a'u cofnodi. | Newydd |
| 35 | Mae'r darparwr wedi methu cynnal y gwiriadau angenrheidiol i sicrhau proses recriwtio gadarn. Nid oedd y cofnodion recriwtio y gwnaethom edrych arnynt i gyd yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol, nid oedd gan staff ddau eirda ac nid oedd eu dogfennau cais yn eu ffeiliau | Newydd |
| 23 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod yr unigolion yn derbyn yr wybodaeth sydd ei hangen i gymryd rhan mewn asesiadau, mewn cynlluniau a phenderfyniadau o ddydd i ddydd am y ffordd y darperir gofal a chymorth a'r ffordd y maent yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. | Newydd |
| 12 | Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod cynnwys y polisïau a’r gweithdrefnau y mae’n ofynnol iddynt fod ar waith, yn rhinwedd paragraffau (1) i (3) yn cael eu diweddaru, eu hadolygu ac yn unol â’r ddeddfwriaeth gyfredol. | Newydd |
| 60 | Methu â chyflwyno hysbysiadau mewn modd amserol yn y fformat gofynnol. Nid yw AGC wedi derbyn unrhyw hysbysiadau gan y darparwr ers iddo fod yn gweithredu. Pan drafodwyd hyn â'r darparwr, nid oedd yn siŵr a oedd wedi rhoi eu porth ar-lein AGC ar waith | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 08/08/2022'